

Cylchlythyr | Circular

Adroddiad Monitro Prentisiaethau Gradd 2023/24 a 2024/25

Dyddiad: 08 Tachwedd 2023
Cyfeirnod: W23/30HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Penaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol
yng Nghymru
Ymateb erbyn: 12 Rhagfyr 2023
Cyswllt: Enw: Angela West
Ffôn: 029 2085 9738
E-bost: angela.west@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC i ddarparu'r [Brentisiaeth Radd Ddigidol](#) (a gyhoeddwyd ar 29 Ebrill 2018), a'r [Brentisiaeth Radd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch](#) (a gyhoeddwyd ar 1 Awst 2019), ac sydd â chymwysterau wedi'u derbyn ar y naill Fframwaith a'r llall, neu unrhyw un newydd pe'i cyflwynid, gyflwyno gwybodaeth fonitro ar gyfer prentisiaethau sydd i'w dyrannu ym mlynnyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25. Mae hyn yn berthnasol i brentisiaid newydd sy'n dechrau yn y naill flwyddyn academaidd a'r llall yn ei thro, a phrentisiaid sy'n parhau o flynyddoedd academaidd blaenorol.

Os oes arnoch angen y ddogfen hon
mewn fformat hygyrch arall,
anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a gyllidir gan CCAUC i ddarparu'r [Brentisiaeth Radd Ddigidol](#) (a gyhoeddwyd ar 29 Ebrill 2018), a'r [Brentisiaeth Radd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch](#) (a gyhoeddwyd ar 1 Awst 2019), ac sydd â chymwysterau wedi'u derbyn ar y naill Fframwaith a'r llall, neu unrhyw un newydd pe'i cyflwynid, gyflwyno gwybodaeth fonitro am niferoedd gwirioneddol y prentisiaethau ym mlynnyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25. Mae hyn yn berthnasol i brentisiaid newydd sy'n dechrau yn y naill flwyddyn academaidd a'r llall yn ei thro, a phrentisiaid sy'n parhau o flynyddoedd academaidd blaenorol i mewn i 2023/24.

Cefndir

2. Fe wnaeth cylchlythyr [W23/04HE](#) a gyhoeddwyd ar 20 Mawrth 2023 wahodd sefydliadau a gyllidir gan CCAUC i gyflwyno cynigion am gyllid ar gyfer prentisiaethau gradd yn 2023/24 a 2024/25, yn erbyn un neu fwy nag un o'r llwybrau a nodir ar y [Brentisiaeth Radd Ddigidol](#) a'r [Brentisiaeth Radd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch](#).
3. Cyflwynodd sefydliadau gynigion erbyn 17 Ebrill 2023, i gael eu hystyried gan banel o Aelodau Cyngor CCAUC, ei staff ac un o swyddogion Llywodraeth Cymru ar 25 Mai 2023. Dyrannwyd niferoedd y prentisiaethau ar 31 Mai 2023, yn amodol ar dderbyn yr holl gymwysterau'n llwyddiannus ar Fframweithiau'r Prentisiaethau Gradd Digidol a Gweithgynhyrchu Uwch, neu unrhyw fframweithiau prentisiaethau gradd newydd pe cyflwynid y rhain, a chadarnhad gan Lywodraeth Cymru o'r gyllideb ar y cyfan yn 2024-25, ac yn amodol ar y broses o bontio i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) newydd.

Monitro a chyllido

4. Fel a nodwyd yng Nghylchlythyr CCAUC [W23/04HE](#), byddwn yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno gwybodaeth am niferoedd y prentisiaethau a nodweddion prentisiaid ar dair adeg ym mlwyddyn academaidd 2023/24, sy'n cyfateb i dri chyfnod cyfeirio. Y cyfnodau cyfeirio yw:

Cyfnod Cyfeirio	Blwyddyn Academaidd 2023/24
Un:	01/08/2023 - 15/11/2023
Dau:	16/11/2023 - 31/03/2024
Tri:	01/04/2024 - 31/07/2024

Sylwer: Bydd y cyfnodau cyfeirio ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2024/25 yn cael eu cadarnhau maes o law.

5. Prentisiaethau sy'n dechrau o Flwyddyn Academaidd 2022/23 ymlaen
Bydd cyfrifiadau cyllid ar gyfer prentisiaid sy'n dechrau o 2022/23 ymlaen yn wahanol i'r dull cyllido a gymhwyswyd i brentisiaid a ddechreuodd rhwng 2018/19 a 2021/22. Arferai cyllid gael ei gyfrifo ar sail cofrestru, ac ar gyfer dechreuwr o

2022/23 ymlaen cyfrifir cyllid yn seiliedig ar y gwerthoedd credyd cysylltiedig y tybir y byddant yn cael eu cwblhau y bydd prentisiaid yn eu hastudio yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae cyllid yn ystyried gwerthoedd credydau y tybir y byddant yn cael eu cwblhau ar y rhaglen prentisiaethau gradd yn unig, ac nid yw'n cynnwys cyllido dysgu blaenorol. Y rheswm dros hyn yw er mwyn cysoni â phrif ddull cyllido addysgu CCAUC (gweler cylchlythyr CCAUC [W23/04HE](#)).

- Mae **Atodiad A** yn darparu templed ar gyfer Adroddiad Monitro i bob sefydliad ei gwblhau â gwybodaeth am brentisiaid a ddechreuodd yn 2022/23 ac sy'n parhau i mewn i 2023/24, a phrentisiaid newydd sy'n dechrau yn 2023/24.
- Bydd taliad yn cael ei wneud yn erbyn niferoedd a gyflwynwyd mewn Adroddiadau Monitro ar gyfer pob cyfnod monitro yn ystod 2023/24 a 2024/25, ar sail nifer y prentisiaethau a'r gwerthoedd credyd cysylltiedig y tybir y byddant yn cael eu cwblhau sy'n gysylltiedig â modiwlau a gymerwyd yn y flwyddyn honno.
- Mae swm y cyllid am bob gwerth credyd wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm o £27,000 ar gyfer cwrs nodweddiadol sy'n werth 360 o gredydau, e.e. £75 am bob gwerth credyd. Felly bydd myfyriwr y disgwylir iddynt fod yn astudio 120 o gredydau'r flwyddyn ar gwrs tair blynedd yn denu cyllid o £9,000 y flwyddyn.
- Mae Atodiad A felly'n cynnwys colofn i gasglu nifer y gwerthoedd credyd y tybir y byddant yn cael eu cwblhau a gymerwyd ym mhob blwyddyn academaidd, ar gyfer prentisiaid unigol a gyflwynwyd mewn Adroddiadau Monitro.

6. Prentisiaid a ddechreuodd rhwng Blynnyddoedd Academaidd 2018/19 a 2021/22
Bydd cyllid ar gyfer prentisiaethau a ddechreuodd rhwng 2018/19 a 2021/22 ac sy'n parhau i mewn i flynyddoedd dilynol yn cael ei ddyrannu'n flynyddol ar sail pro rata yn unol â hyd y brentisiaeth fel a ddynodwyd gan y sefydliad yn eu cynnig, e.e. bydd £6,750 y flwyddyn yn cael ei ddyrannu ar gyfer prentisiaeth 4 blynedd.

- Mae **Atodiad B** yn darparu templed ar gyfer Adroddiad Monitro i bob sefydliad ei gwblhau â gwybodaeth am y prentisiaethau hynny sy'n parhau yn 2023/24 a ddechreuodd rhwng Blynnyddoedd Academaidd 2018/19 a 2021/22.
- Bydd taliad yn cael ei wneud yn erbyn niferoedd gwirioneddol y prentisiaethau a gyflwynwyd mewn Adroddiadau Monitro ar gyfer pob cyfnod monitro yn ystod 2023/24 a 2024/25, ar sail nifer a hyd y prentisiaethau.

Sylwer: Bydd templedi'r Adroddiad Monitro ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2024/25 yn cael eu cylchredeg ar wahân yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf.

7. Bydd y broses o gyflwyno templedi'r Adroddiadau Monitro'n ystyried y canllawiau canlynol:

- Mae templedi'r Adroddiadau Monitro'n gofyn nodi cyfrifon y prentisiaethau yn ôl cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) a nodweddion y prentisiaethau. Rhaid i'r diffiniadau a ddefnyddir i gategoreiddio prentisiaid yn y templed fod yn gyson â'r rhai a fydd yn cael eu defnyddio i ddychwelyd gwybodaeth am fyfyrwyr ar [gofnod myfyrwyr HESA](#) ar gyfer 2023/24 a 2024/25. Ceir canllawiau pellach ar y templed a dylent gyfateb â'r hyn a amlinellir yng [nghanllawiau HESES/EYM](#). Lle nad oes canllawiau ar gael ar gyfer y flwyddyn

academaidd y dychwelir gwybodaeth ar ei chyfer yn yr adroddiad monitro, dylid cyfeirio at ganllawiau'r flwyddyn flaenorol.

- Dim ond unwaith yn ystod pob blwyddyn academaidd y dylid adrodd ar brentisiaid mewn Adroddiad Monitro, a dylid adrodd arnynt yn y cyfnod cyfeirio ar gyfer monitro sy'n cyfateb â chofrestriad ar raglen prentisiaeth radd,
- Rhaid i Atodiad A gynnwys y gwerthoedd credyd y tybir y byddant yn cael eu cwblhau sy'n gysylltiedig â phrentisiaid unigol a ddechreuodd yn 2022/23 ac sy'n parhau i mewn i 2023/24, a phrentisiaid newydd sy'n dechrau yn 2023/24.
- Dylai sefydliadau sicrhau bod y broses o ddychwelyd data yn Atodiad A ac Atodiad B yn cael ei chydlynu rhwng cydweithwyr sy'n gyfrifol am brentisiaethau gradd a'r rhai sy'n gyfrifol am ddychweliadau data myfyrwyr.
- Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddychwelir i dracio cynnydd a chydymffurfiaeth â blaenoriaethau CCAUC ar gyfer y rhaglen prentisiaethau gradd, ac yn adrodd yn gyhoeddus ar y rhain, yn ogystal ag wrth Lywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth a ddychwelir i oleuo datblygiadau polisi yn y dyfodol.
- Bydd yr holl ddata a rennir yn gyhoeddus yn ddarostyngedig i [bolisi a gweithdrefnau rheoli datgeliadau data](#) CCAUC.

Cysoni cyllid

8. Ar gyfer prentisiaid a gofrestrodd yn 2023/24 a 2024/25, byddir yn talu i sefydliadau am bob pwynt cyfeirio ar gyfer monitro yn ystod blwyddyn academaidd. Mae'r symiau a delir yn seiliedig ar ddata a ddychwelwyd i CCAUC trwy Adroddiadau Monitro fel a ddisgrifir ym mharagraffau 5 a 6.
9. Rydym yn cysoni'r data a gyflwynwyd mewn Adroddiadau Monitro â data monitro diwedd blwyddyn HESA i ystyried myfyrwyr a dynnodd yn ôl, credydau heb eu cwblhau, cydnabod dysgu blaenorol, ac unrhyw anghysonderau eraill. Bydd hyn yn cael ei ddilysu gan ddarparwyr ar gyfer data 2023/24 a 2024/25 fel rhan o [broses IRIS HESA](#) ym mis Tachwedd 2024, ac ym mis Tachwedd 2025 yn y drefn honno.
10. Y bwriad yw y bydd unrhyw wahaniaethau mewn cyllid o ganlyniad i'r ymarfer cysoni hwn yn cael eu cyfrifo ym mis Mai 2025 ar gyfer data 2023/24, ac ym mis Mai 2026 ar gyfer data 2024/25. Bydd unrhyw addasiadau'n cael eu gwneud yn erbyn taliad grant sefydliad ar yr adeg honno. Byddwn yn trafod y ffigyrau ac yn cytuno arnynt gyda phob sefydliad cyn y gwneir unrhyw addasiad.

Amserlen

11. Dychwelwch yr Adroddiadau Monitro yn Atodiad A ac Atodiad B, wedi'u cwblhau'n electronig a'u diogelu â chyfrinair, ar gyfer pob cyfnod cyfeirio, erbyn y dyddiadau ymateb a amlinellir yn y tabl isod os gwelwch yn dda. Byddwn yn anfon cyfrinair at bob sefydliad yn unigol i ddiogelu templedi wedi'u cwblhau a ddychwelir i CCAUC. Yn seiliedig ar wybodaeth fonitro a ddychwelir ar gyfer pob cyfnod cyfeirio, byddwn yn talu i sefydliadau erbyn y dyddiadau talu canlynol:

2023/24	Cyfnod monitro	Terfyn amser cyflwyno	Dyddiad talu disgwylidig
Un:	01/08/2023 - 15/11/2023	12/12/2023	Ion-24
Dau:	16/11/2023 - 31/03/2024	22/04/2024	Mai-24
Tri:	01/04/2024 - 31/07/2024	20/08/2024	Medi-24

Mae'r dyddiad talu disgwylidig yn amodol ar wirio gwybodaeth fonitro'r sefydliad gyda chyllid a ddyrannwyd ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

Sylwer: Bydd cadarnhad o'r amserlen ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2024/25 yn cael ei gylchredeg ar wahân yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf.

Rhagor o wybodaeth / ymatebion i

12. E-bostiwrch adroddiadau wedi'u cwblhau at Angela West (angela.west@hefcw.ac.uk) os gwelwch yn dda. Daw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn weithredol ar 1 Ebrill 2024, a bydd yn ymgymryd â swyddogaethau CCAUC. Bydd pwyntiau cyswllt yn y Comisiwn i gyflwyno adroddiadau ar gyfer cyfnodau cyfeirio monitro 2 a 3 ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 yn cael eu cyfleu i sefydliadau maes o law.

Asesu effaith ein polisïau

13. Cynhaliodd CCAUC asesiad o'r effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o'r effaith.

Templed monitro prentisiaethau gradd 2023/24 - prentisiaid a ddechreuodd yn 2022/23 ac sy'n parhau i mewn i 2023/24, a phrentisiaid newydd sy'n dechrau yn 2023/24

Darperir y nodiadau cyfarwyddyd isod i roi cymorth i gwblhau'r tabl yn Atodiad A

NODIADAU CYFARWYDDYD:

Dylid cyflwyno gwybodaeth am recriwtio pob prentis **unwaith** yn unig yn ystod pob blwyddyn academiaidd, ac adrodd ar hynny yn y cyfnod cyfeirio ar gyfer monitro sy'n cyfateb â chofrestru ar y rhaglen prentisiaethau gradd. Rhaid i'r Adroddiad Monitro gynnwys y gwerthoedd credydau y tybir y byddant yn cael eu cwblhau sy'n gysylltiedig â phrentisiaid unigol yn ystod 2023/24.

Cyfnodau adrodd

Darparwch wybodaeth sy'n ymwneud â phrentisiaid yn y categorïau canlynol os gwelwch yn dda:

Yr holl brentisiaid newydd sy'n dechrau yng nghyfnod 1 yn 2023/24 (rhwng 1 Awst 2023 ac 15 Tachwedd 2023), **yng nghyfnod 2 yn 2023/24** (rhwng 16 Tachwedd 2023 a 31 Mawrth 2024), ac **yng nghyfnod 3 yn 2023/24** (rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Gorffennaf 2024)

Yr holl brentisiaid a ddechreuodd yn 2022/23 ac sy'n parhau yng nghyfnod 1 yn 2023/24 (rhwng 1 Awst 2023 ac 15 Tachwedd 2023), **yng nghyfnod 2 yn 2023/24** (rhwng 16 Tachwedd 2023 a 31 Mawrth 2024), ac **yng nghyfnod 3 yn 2023/24** (rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Gorffennaf 2024)

Dylai gwybodaeth am yr holl brentisiaid a ddechreuodd rhwng blynyddoedd academiaidd 2018/19 a 2021/22 gael ei dychwelyd yn Atodiad B

Sector

Enw'r sector fel a ddiffinnir gan y Cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) Code sy'n rhoi'r gynrychiolaeth orau o'r sector cyflogaeth y mae'r cyflogwr yn perthyn iddo.

<https://www.hesa.ac.uk/support/documentation/industrial/sic2007>

BBaCh - Y diffiniad o Fusnes Bach a Chanolig fel a feintiolwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yw un sydd heb fwy na 250 o gyflogeion

Fframwaith - Y Fframweithiau ar gyfer Prentisiaethau Gradd yn y cyfnod rhwng 2018/19 a 2024/25 yw Digidol, a Pheirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch

Llwybr - Llwybrau ar gyfer y Fframwaith Digidol yw:

Gwyddor data

Rheoli seiberddiogelwch

Peirianeg meddalwedd

Llwybr - Llwybrau ar gyfer y Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch yw:

Peirianeg Fecanyddol

Peirianeg Drydanol / Electronig

Gweithgynhyrchu Uwch

Peirianeg Gemegol

Peirianeg Integredig

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Prentisiaethau Gradd Digidol (Cymru) yma:

[Prentisiaeth Radd Ddigidol \(Cymru\)](#)

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch (Cymru) yma:

[Prentisiaeth Radd Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch \(Cymru\)](#)

Cyflogai newydd neu bresennol

Cyflogai newydd - dechreuodd y prentis gyda'r cyflogwr pan ddechreuodd y brentisiaeth

Cyflogai presennol - roedd y prentis eisoes yn cael ei gyflogi gan y cyflogwr pan ddechreuodd y brentisiaeth

Oedran

Oedran ar 31 Awst yn y flwyddyn academiaidd y gwnaeth y prentis **ddechrau**'r rhaglen, h.y. Awst 2023 ar gyfer y rhai sy'n dechrau yn 2023/24, ac Awst 2024 ar gyfer y rhai sy'n dechrau yn 2024/25.

Pwynt mynediad - dylai'r holl brentisiaid a ddechreuodd rhwng blynyddoedd academiaidd 2018/19 a 2021/22 gael eu dychwelyd yn Atodiad B

Cyfnod 1 yn 2022/23 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2022 ac 15 Tachwedd 2022

Cyfnod 2 yn 2022/23 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2022 a 31 Mawrth 2023

Cyfnod 3 yn 2022/23 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Gorffennaf 2023

Cyfnod 1 yn 2023/24 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2023 ac 15 Tachwedd 2023

Cyfnod 2 yn 2023/24 2fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2023 a 31 Mawrth 2024

Cyfnod 3 yn 2023/24 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Gorffennaf 2024

Dylai'r meysydd canlynol fod yn gyson â'r diffiniadau a ddefnyddiwyd yng nghofnod myfyrwyr HESA 2023/24 a 2024/25 HESA sydd wedi cael eu diweddarau ar gyfer Dyfodol Data:

Lle nad oes canllawiau ar gael ar gyfer y Flwyddyn Academiaidd y mae a wnelo'r adroddiad monitro â hi, dylid defnyddio canllawiau'r flwyddyn ddiweddaraf ac mae fel a nodir yn y ddolen isod.

Lefel - y lefel y mae'r prentis arni pan fydd yn dechrau yw hon. Disgrifir lefel yn niagram gwyntyll Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru 2018

<https://www.hefcw.ac.uk/cy/document/cfw-fan-diagram-2018-cymraeg/>

Disgrifir lefel yn y maes QUALCAT yng nghofnod myfyrwyr HESA hefyd, lle caiff fframwaith ar y cyfan a ddefnyddir gan HESA ei gymharu â fframweithiau cymwysterau presennol eraill sydd ar gael

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/Qualification/field/QUALCAT>

Statws siaradwr Cymraeg - mae siaradwr Cymraeg yn cynnwys y myfyrwr hynny a godiwyd felly yn y maes LANGPROFICIENCYID yng nghofnod myfyrwyr HESA ac wedi'i rannu ymhellach yn ôl rhuglder gan ddefnyddio'r meysydd PROFICIENCYTYPE a PROFICIENCYLEVEL

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/LanguageProficiency/field/LANGPROFICIENCYID>

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/LanguageProficiency/field/PROFICIENCYTYPE>

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/LanguageProficiency/field/PROFICIENCYLEVEL>

Rhyw

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/Student/field/SEXID>

Anabledd – mae hyn yn seiliedig ar hunanasesiad y myfyriwr ei hun. Lle mae gan fyfyrwr nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu hysbys dylid eu cyfrif yn y golofn ‘Anabledd wedi’i ddatgan’. Dylai myfyrwyr heb nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu hysbys, a myfyrwr lle nad yw anabledd ar gael neu lle mae myfyriwr wedi dewis bod yn well ganddynt beidio â dweud gael eu cynnwys yn y golofn 'Dim anable

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/Disability/field/DISABILITY>

Ethnigrwydd

Mae gwyn yn cynnwys 'Gwyn' a 'Sipsiwn neu Deithiwr'

Mae grwpiau du ac ethnig Ielaifrifol yn cynnwys yr holl grwpiau ethnig heblaw ‘Gwyn’, ‘Sipsiwn neu Deithiwr’, ‘Ddim yn hysbys’, ‘Gwell gen i beidio â dweud’ a ‘Ddim ar gael’

At ddibenion y broses fonitro hon, mae ddim yn hysbys yn cynnwys 'Ddim yn hysbys', 'Gwell gen i beidio â dweud' a 'Ddim ar gael'

Defnyddir 'Ddim yn hysbys' pan nad yw myfyriwr ei hun yn gwybod yr wybodaeth hon. Defnyddir 'Gwell gen i beidio â dweud' pan nad yw'r myfyriwr yn dymuno datgan yr wybodaeth hon. 'Ddim ar gael' yw pan nad yw'r darparwr yn gallu cael y data er mwyn ei gyflwyno i HESA.

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/Student/field/ETHNIC>

CYFRIFON COFRESTRU MYFYRWYR

Dylai'r holl gyfrifon cofrestru fod yn gyfrifon cyfanredol o brentisiaid yn ôl yr amryw gategorïau

GWERTHOEDD CREDYDAU Y TYBIR Y BYDDANT YN CAEL EU CWBLHAU

O 2022/23 bydd yr holl ddechreuwr newydd ar raglenni prentisiaethau'n cael eu cyllido gan ddefnyddio nifer y gwerthoedd credydau ar fodiwlau a gymerwyd fel rhan o'r rhaglen brentisiaethau yn y flwyddyn academiaidd (gweler cylchlythyr CCAUC W22/14HE)

Felly mae Atodiad A yn cynnwys colofn ychwanegol i gasglu nifer y gwerthoedd credydau y tybir y byddant yn cael eu cwblhau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn academiaidd, ar gyfer y prentis a ddechreuodd yn 2023/24 a'r prentis a ddechreuodd yn 2022/23 sy'n parhau i mewn i 2023/24 a gynhwysir yn y cyfnod/adroddiad hwn.

For example, a starter in September 2023 may expect to complete 120 credit values during 2023/24 with all information included in the Period 1 report, a starter in January 2024 may expect to complete 60 credit values during the remainder of 2023/24 and will be included in the Period 2 report.

Dylai'r holl wybodaeth am werthoedd credydau a ddychwelir ddilyn yr un egyddorion a chanllawiau â'r rhai a gynhwysir yn:

[Cylchlythyr CCAUC W22/40HE - Arolwg HESES 2022/23](#) Bydd diweddariad 2023/24 ar gael yn hydref 2023, er y bydd yn dilyn yr un rheolau ar gyfer cyfrif credydau.

Cydnabyddir y gall y broses o ddychwelyd gwerthoedd credydau gynnwys elfen o amcangyfrif cofrestrïadau ar fodiwl a modiwlau a gwblheir yn ystod y flwyddyn.

Mae croeso i ddarparwr gyсылtlu â hestats@hefcw.ac.uk gydag unrhyw gwestiynau neu i ofyn am eglurhad y mae ei angen i gwblhau'r cais hwn.

Gall dyraniadau sy'n seiliedig ar werthoedd credydau y tybir y byddant yn cael eu cwblhau a gymerir gan brentisiaid newydd sy'n dechrau o 2023/24 a phrentisiaid a ddechreuodd yn 2022/23 ac sy'n parhau i mewn i 2023/24 ac ymlaen gael eu haddasu

+/- yn seiliedig ar fodiwlau nas cwblhawyd, achosion y dynnu'n ôl neu os yw cyfanswm y credydau ar gyfer y cwrs yn llai na 360 o greydau o ganlyniad i gydnabod dysgu blaenorol (RPL). Bydd addasiadau'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio data monitro

diwedd blwyddyn HESA ar gyfer 2023/24, a fydd yn cael ei gymeradwyo gan ddarparwr fel rhan o broses IRIS HESA ym mis Tachwedd 2023, ac yn cael ei adfer ym mis Mai 2024.

DILYSU

Mae negeseuon dilysu'n ymddangos mewn coch ar ochr dde'r tabl i amlygu pan fo gwybodaeth ar goll neu'n anghyson. Sicrhewch fod yr holl wybodaeth ofynnol wedi cael ei chwblhau ac nad oes negeseuon dilysu mewn coch ar ochr y tabl cyn cyflwyno'r templed wedi'i gwblhau i CCAUC.

Templed monitro prentisiaethau gradd 2023/24 - prentisiaid a ddechreuodd rhwng 2018/19 a 2021/22, sy'n parhau i mewn i 2023/24

Darperir y nodiadau cyfarwyddyd isod i roi cymorth i gwblhau'r tabl yn Atodiad B

NODIADAU CYFARWYDDYD:

Dylid cyflwyno gwybodaeth am recriwtio pob prentis **unwaith** yn unig yn ystod pob blwyddyn academiaidd, ac adrodd ar hynny yn y cyfnod cyfeirio ar gyfer monitro sy'n cyfateb â chofrestru ar y rhaglen prentisiaethau gradd.

Cyfnodau adrodd

Darparwch wybodaeth sy'n ymwneud â phrentisiaid yn y categorïau canlynol os gwelwch yn dda:

Yr holl brentisiaid sy'n parhau o **gyfnod 1 yn 2018/19** (rhwng 1 Awst 2018 ac 18 Ionawr 2019), a **chyfnod 2 yn 2018/19** (rhwng 19 Ionawr 2019 a 31 Gorffennaf 2019)

Yr holl brentisiaid sy'n parhau o **gyfnod 1 yn 2019/20** (rhwng 1 Awst 2019 ac 15 Tachwedd 2019), **cyfnod 2 yn 2019/20** (rhwng 16 Tachwedd 2019 a 31 Mawrth 2020), a **chyfnod 3 yn 2019/20** (rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Gorffennaf 2020)

Yr holl brentisiaid sy'n parhau o **gyfnod 1 yn 2020/21** (rhwng 1 Awst 2020 ac 15 Tachwedd 2020), **cyfnod 2 yn 2020/21** (rhwng 16 Tachwedd 2020 a 31 Mawrth 2021), a **chyfnod 3 yn 2020/21** (rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Gorffennaf 2021)

Yr holl brentisiaid sy'n parhau o **gyfnod 1 yn 2021/22** (rhwng 1 Awst 2021 ac 15 Tachwedd 2021), **cyfnod 2 yn 2021/22** (rhwng 16 Tachwedd 2021 a 31 Mawrth 2022), a **chyfnod 3 yn 2021/22** (rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Gorffennaf 2022)

Dylai'r holl brentisiaid a ddechreuodd yn 2022/23 ac sy'n parhau i mewn i 2023/24, a phrentisiaid newydd sy'n dechrau yn 2023/24, gael eu dychwelyd yn Atodiad A

Sector

Enw'r sector fel a ddiffinnir gan y Cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) Code sy'n rhoi'r gynrychiolaeth orau o'r sector cyflogaeth y mae'r cyflogwr yn perthyn iddo.

<https://www.hesa.ac.uk/support/documentation/industrial/sic2007>

BBaCh - Y diffiniad o Fusnes Bach a Chanolig fel a feintiolwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yw un sydd heb fwy na 250 o gyflogeion

Fframwaith - Y Fframweithiau ar gyfer Prentisiaethau Gradd yn y cyfnod rhwng 2018/19 a 2024/25 yw Digidol, a Pheirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch

Llwybr - Llwybrau ar gyfer y Fframwaith Digidol yw:

Gwyddor data

Rheoli seiberddiogelwch

Peirianneg meddalwedd

Llwybr - Llwybrau ar gyfer y Fframwaith Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch yw:

Peirianneg Fecanyddol

Peirianneg Drydanol / Electronig

Gweithgynhyrchu Uwch

Peirianneg Gemegol

Peirianneg Integredig

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Prentisiaethau Gradd Digidol (Cymru) yma:

[Digital Degree Apprenticeship \(Wales\)](#)

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch (Cymru) yma:

[Engineering and Advanced Manufacturing Degree Apprenticeship \(Wales\)](#)

Cyflogai newydd neu bresennol

Cyflogai newydd - dechreuodd y prentis gyda'r cyflogwr pan ddechreuodd y brentisiaeth

Cyflogai presennol - roedd y prentis eisoes yn cael ei gyflogi gan y cyflogwr pan ddechreuodd y brentisiaeth

Oedran

Oedran ar 31 Awst yn y flwyddyn academiaidd y gwnaeth y prentis **ddechrau**'r rhaglen, h.y. 31 Awst 2018 ar gyfer y rhai a wnaeth **ddechrau** yn 2018/19, 31 Awst 2019 ar gyfer y rhai a wnaeth **ddechrau** yn 2019/20, 31 Awst 2020 ar gyfer y rhai a wnaeth **ddechrau** yn 2020/21, Awst 2021 ar gyfer y rhai

Pwynt mynediad

Cyfnod 1 yn 2018/19 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2018 ac 18 Ionawr 2019

Cyfnod 2 yn 2018/19 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 19 Ionawr 2019 a 31 Gorffennaf 2019

Cyfnod 1 yn 2019/20 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2019 ac 15 Tachwedd 2019

Cyfnod 2 yn 2019/20 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2019 a 31 Mawrth 2020

Cyfnod 3 yn 2019/20 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Gorffennaf 2020

Cyfnod 1 yn 2020/21 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2020 ac 15 Tachwedd 2020

Cyfnod 2 yn 2020/21 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2020 a 31 Mawrth 2021

Cyfnod 3 yn 2020/21 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Gorffennaf 2021

Cyfnod 1 yn 2021/22 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Awst 2021 ac 15 Tachwedd 2021

Cyfnod 2 yn 2021/22 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 16 Tachwedd 2021 a 31 Mawrth 2022

Cyfnod 3 yn 2021/22 fe wnaeth y prentis ddechrau'r brentisiaeth rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Gorffennaf 2022

Dylai'r meysydd canlynol fod yn gyson â'r diffiniadau a ddefnyddiwyd yng nghofnod myfyrwyr HESA 2022/23 sydd wedi cael eu diweddarau ar gyfer Dyfodol Data:

Lefel - y lefel y mae'r prentis arni pan fydd yn dechrau yw hon. Disgrifir lefel yn niagram gwyntyll Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru 2018

<https://www.hefcw.ac.uk/cy/document/cqfw-fan-diagram-2018-cymraeg/>

Disgrifir lefel yn y maes QUALCAT yng nghofnod myfyrwyr HESA hefyd, lle caiff fframwaith ar y cyfan a ddefnyddir gan HESA ei gymharu â fframweithiau cymwysterau presennol eraill sydd ar gael

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/Qualification/field/QUALCAT>

Statws siaradwr Cymraeg - mae siaradwr Cymraeg yn cynnwys y myfyrwr hynny a godiwyd felly yn y maes LANGPROFICIENCYID yng nghofnod myfyrwyr HESA ac wedi'i rannu ymhellach yn ôl rhuglder gan ddefnyddio'r meysydd PROFICIENCYTYPE a PROFICIENCYLEVEL

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/LanguageProficiency/field/LANGPROFICIENCYID>

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/LanguageProficiency/field/PROFICIENCYTYPE>

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/LanguageProficiency/field/PROFICIENCYLEVEL>

Rhyw

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/Student/field/SEXID>

Anabledd – mae hyn yn seiliedig ar hunanasesiad y myfyrwr ei hun. Lle mae gan fyfyrwr nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu hysbys dylid eu cyfrif yn y golofn 'Anabledd wedi'i ddatgan'. Dylai myfyrwr heb nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu hysbys, a myfyrwr lle nad yw anabledd ar gael neu lle mae myfyrwr wedi dewis bod yn well ganddynt beidio â

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/Disability/field/DISABILITY>

Ethnigrwydd

Mae gwyn yn cynnwys 'Gwyn' a 'Sipsiwn neu Deithiwr'

Mae grwpiau du ac ethnig leiafrifol yn cynnwys yr holl grwpiau ethnig heblaw 'Gwyn', 'Sipsiwn neu Deithiwr', 'Ddim yn hysbys', 'Gwell gen i beidio â dweud' a 'Ddim ar gael'

At ddibenion y broses fonitro hon, mae ddim yn hysbys yn cynnwys 'Ddim yn hysbys', 'Gwell gen i beidio â dweud' a 'Ddim ar gael'

Defnyddir 'Ddim yn hysbys' pan nad yw myfyrwr ei hun yn gwybod yr wybodaeth hon. Defnyddir 'Gwell gen i beidio â dweud' pan nad yw'r myfyrwr yn dymuno datgan yr wybodaeth hon. 'Ddim ar gael' yw pan nad yw'r darparwr yn gallu cael y data er mwyn ei gyflwyno i HESA.

<https://codingmanual.hesa.ac.uk/22056/Student/field/ETHNIC>

DILYSU

Mae negeseuon dilysu'n ymddangos mewn coch ar ochr dde'r tabl i amlygu pan fo gwybodaeth ar goll neu'n anghyson. Sicrhewch fod yr holl wybodaeth ofynnol wedi cael ei chwblhau ac nad oes negeseuon dilysu mewn coch ar ochr y tabl cyn cyflwyno'r templed wedi'i gwblhau i CCAUC.